Ffederasiwn Cwrt Henri, Ffairfach a Talyllychau

Pennaeth – Mrs Sian Davies ( DaviesS878@hwbcymru.net)

Penaethiaid Cynorthwyol – Mrs L Williams / Mrs A Morgan / Miss A Walker

# Polisi Tywydd Poeth ac Eli Haul

# Hot Weather and Sunscreen Policy

**Adopted by the governing body – 5ed o Fehefin 2026**

**Llofnod y Pennaeth:** *S. Davies*

**Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** *A Rees*

**Nod**

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod pob disgybl a staff yn cael eu diogelu rhag effeithiau niweidiol tywydd poeth a golau haul cryf, gan gynnwys llosg haul, blinder gwres a dadhydradu.

**Gweithredu'r ysgol**

Yn ystod cyfnodau o dywydd poeth, bydd yr ysgol yn gwneud newidiadau rhesymol i leihau'r risgiau i iechyd a lles disgyblion a staff. Bydd hyn yn cynnwys:

- aildrefnu gweithgareddau allanol, yn enwedig gweithgareddau corfforol, fel eu bod yn digwydd yn ystod adegau oerach o'r dydd lle bo hynny'n bosibl, gan osgoi'r cyfnod rhwng 11:00yb a 3:00yp os yw'r haul yn gryf.
- gweithgareddau awyr agored yn cael eu cynnal mewn mannau cysgodol priodol lle bo hynny ar gael
- staff yn annog disgyblion i ddefnyddio'r cysgod yn rheolaidd.
- staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd aml i yfed dŵr drwy gydol y dydd, er mwyn atal dadhydradu.
- ystafelloedd dosbarth yn cael eu rheoli i gadw tymheredd mor isel ag sy'n ymarferol, drwy gau bleindiau neu lenni lle bo angen, a thrwy awyru'r ystafelloedd yn briodol.
- staff hefyd yn monitro disgyblion yn ofalus am unrhyw arwyddion o flinder gwres neu salwch sy'n gysylltiedig â'r gwres, ac yn cymryd camau ar unwaith os oes angen.

**Polisi Eli Haul**

Mae'r ysgol yn dibynnu ar gydweithrediad rhieni a gwarcheidwaid i sicrhau bod plant yn cael amddiffyniad priodol rhag yr haul. **Disgwylir i rieni roi eli haul addas (SPF 30 neu uwch) ar eu plentyn cyn iddo gyrraedd yr ysgol bob dydd yn ystod cyfnodau o dywydd poeth.**

Os oes angen i ddisgybl ail osod eli haul yn ystod y diwrnod ysgol, rhaid i'r rhieni ddarparu'r eli haul mewn potel sydd wedi'i labelu'n glir ag enw'r plentyn. Dylid rhoi'r eli haul i aelod o staff, er mwyn sicrhau diogelwch pob plentyn, yn enwedig y rhai sydd ag alergeddau.

Gall staff gynorthwyo neu oruchwylio'r broses o ail osod eli haul ar gyfer disgyblion iau, ond dim ond lle mae caniatâd rhieni wedi'i roi ymlaen llaw. Ni chaniateir i blant rannu eli haul gyda'i gilydd o dan unrhyw amgylchiadau, er mwyn lleihau'r risg o adweithiau alergaidd.

**Dillad ac Offer**

Disgwylir i ddisgyblion ddod i'r ysgol mewn dillad sy'n addas ar gyfer y tywydd poeth, megis dillad ysgafn a lliw golau sy'n helpu i gadw'r corff yn oer. **Gofynnir i bob plentyn ddod â het haul addas, sy'n amddiffyn y pen, y llygaid a'r gwddf rhag pelydrau'r haul.**

Yn ogystal, rhaid i bob disgybl ddod â photel ddŵr wedi'i labelu â'i enw i'r ysgol bob dydd, fel y gallant aros yn hydradu drwy gydol y dydd. Bydd staff yn annog defnyddio'r poteli hyn yn rheolaidd.

**Aim**

The aim of this policy is to ensure that all pupils and staff are protected from the harmful effects of hot weather and strong sunlight, including sunburn, heat exhaustion and dehydration.

**School Actions**

During periods of hot weather, the school will implement reasonable adjustments to reduce risks to the health and wellbeing of pupils and staff. This will include:

- rescheduling outdoor activities, particularly physical activities, so that they take place during cooler parts of the day wherever possible, avoiding the peak sun hours between 11:00am and 3:00pm when appropriate.
- Outdoor activities being organised in shaded areas wherever possible,
- staff actively encouraging pupils to remain in the shade.
- staff will ensuring that pupils are given frequent opportunities to drink water throughout the day in order to prevent dehydration.
- Classrooms being managed to keep temperatures as low as practicable by closing blinds or curtains where necessary and ensuring appropriate ventilation
- Staff closely monitoring pupils for any signs of heat exhaustion or heat-related illness and will take immediate action if concerns arise.

**Sunscreen Policy**

The school relies on the cooperation of parents and carers to ensure that children are adequately protected from the sun. Parents are expected to apply an appropriate sunscreen (SPF 30 or above) to their child before they arrive at school during periods of hot weather.

If a pupil needs to reapply sunscreen during the school day, parents must provide clearly labelled sunscreen showing the child's name. The sunscreen should be handed to a member of staff to ensure the safety of all pupils, particularly those with allergies.

Staff may assist or supervise younger pupils with the reapplication of sunscreen, but only where prior parental consent has been given. Under no circumstances should pupils share sunscreen, as this could pose a risk of allergic reaction.

**Clothing and Equipment**

Pupils are expected to attend school wearing clothing suitable for hot weather, such as lightweight and light-coloured garments that help keep the body cool. All pupils are strongly encouraged to bring a suitable sun hat that protects the head, eyes and neck from the sun.

In addition, all pupils must bring a clearly labelled water bottle to school each day so that they can remain hydrated throughout the day. Staff will encourage pupils to drink regularly.

**Ffurflen Ganiatâd Eli Haul / Sunscreen Consent Form**

| | |
|---|---|
| Enw'r plentyn / Child name | ______________________________ |
| Dosbarth / Class | ______________________________ |
| Caniatâd / Consent | Rwy'n rhoi caniatâd i<br>staff gynorthwyo neu oruchwylio fy mhlentyn i<br>ail-ymgeisio eli haul.<br>I give permission for staff to assist or<br>supervise sunscreen reapplication. |
| Alergeddau / Allergies | ______________________________ |
| Llofnod / Signature | ______________________________ |
| Dyddiad / Date | ______________________________ |